| | |
|---|---|
| CYFARFOD | PWYLLGOR PENSIYNAU |
| DYDDIAD | 5 GORFFENNAF 2010 |
| TEITL | DYRANIAD TACTEGOL O ASEDAU |
| AWDUR | DILWYN WILLIAMS<br>CYFARWYDDWR CORFFORAEHTOL |

## 1. Cefndir


1.1 Yn Nhachwedd 2008, cynghorwyd y Panel Buddsoddi gan Hymans Robertson y gallasai fod yn fuddiol i gymryd mantais o ledeiniadau credyd ac i symud buddsoddiadau drosodd o gilts i fondiau corfforaethol.

1.2 Dilynwyd y mater yma i fyny mewn cyfarfod pellach o'r Panel yn Chwefror 2009 ac o ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw bydd y Panel yn cofio iddynt benderfynu fis Chwefor 2009 i newid tactegol o gilts i fondiau corfforaethol er mwyn cymryd mantais o'r gwahaniaethau cymharol yn y "cyfraddau llog".

1.3 Derbyniodd y Panel Buddsoddi adroddiad gan Hymans Robertson yn ei gyfarfod diwethaf ar 11 Mai yn nodi fod y Gronfa wedi elwa swm o £4.9m o ganlyniad i'r penderfyniad yma.

## 2 Cyfleoedd i'r Dyfodol

2.1 I raddau 'roeddem yn ffodus fod uchafbwynt y cyfle wedi parhau o tua Rhagfyr 2008 i Ebrill 2009 (gweler y graff isod) sef y cyfnod a gymerodd i ni i drosi syniad i fod yn weithredol.



2.2 Pe byddai'r uchafbwynt wedi parhau am gyfnod llai gallasem fod wedi colli'r cyfle perffaith i symud a mae hyn yn codi'r cwestiwn a ydym angen sicrhau proses esmwythach pe cyfyd cyfleoedd i'r dyfodol.

2.3 Rwyf felly wedi gofyn am gyngor gan Hymans Robertson a gwelir copi o'u cyngor ynghlwm.

2.4 Gan gadw cyngor Hymans mewn cof, a chan gofio fod Cyfansoddiad y Cyngor eisoes yn dirprwyo yr hawl i weithredu mewn perthynas ac effeithiau ymarferol strategaeth fuddsoddi y Pwyllgor Pensiynau i mi, rwyf yn **argymell i'r Pwyllgor ddirprwyo hawl i weithredu mewn perthynas a rhaniad tactegol o asedau i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Dilwyn Williams) mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid a'r Panel Buddsoddi (neu Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor os yw trafodaeth gyda'r Panel yn amhosibl) ar gyfer unrhyw gyfleoedd ychwanegol y bydd yr Ymgynghorwyr Buddsoddi (Hymans Robertson) yn eu hadnabod ar gyfer y dyfodol.**

2.5 Pan fyddwn yn sefydlu Datganiad Strategol Cyllido'r Gronfa o ganlyniad i'r prisiad yn hwyrach eleni, yn unol a chyngor Hymans bydd angen adnabod y ffiniau awdurdodedig lle gellir gweithredu.